# Cywreinbethau' Richard Morris gan R. Elwyn Hughes

Bu farw Richard Morris (yr olaf o 'Forrisiaid Môn') ddiwedd 1779 ac yntau'n 77 oed. Cynhwysai ei ewyllys (gweler t.170 o *Gofiant Richard Morris* gan Dafydd Wyn Wiliam) y cyfarwyddyd: *'I desire that my Cabinet of Shell Fossils Ores Minerals Coins Medals and other natural Curiosities… may be …sold to the best advantage so soon as may be after my decease…'* A dyna a wnaethpwyd. Trefnodd yr ysgutorion fod holl 'gywreinbethau' Richard Morris i'w gwerthu ar 6 Ebrill 1780 – dri mis ar ôl ei farwolaeth.

Roedd i gabinet cywreinbethau le o bwys ym mywyd deallusol y ddeunawfed ganrif; droeon, buont yn achos cryn gystadlu rhwng eu perchnogion. I rai naturiaethwyr – megis Hans Sloane yn Lloegr ac, i raddau llai, Thomas Pennant yng Nghymru – roedd iddynt swyddogaeth bwysig yn eu hastudiaethau ymarferol. Ond i'r mwyafrif llethol, dilyn y ffasiwn oedd meddu ar gabinet o'r fath.

Mae lle i ofni mai i'r categori olaf hwn y perthynai Richard Morris ac y mae'n amheus faint yn union o wir ddiddordeb mewn naturiaetheg a orweddai y tu ôl i'w gasgliad o gywreinbethau. O leiaf, dyna'r argraff a geir drwy ddarllen sylwadau ei ddau frawd, Lewis a William, amdano. Er i Lewis a William ei gynorthwyo i gasglu'r eitemau, (a chan Lewis y derbyniodd ei gabinet cyntaf) eto i gyd, pur isel oedd barn y brodyr am alluoedd a diddordeb Richard yn y cyfeiriad hwn.

Mewn llythyr o Lundain at ei frawd William, dywedai Lewis (Chwefror 15 1757):

A

CATALOGUE

Of the valuable and well chofen

COLLECTION

OF

SILVER and COPPER COINS,

Shells, Foffils, Pieces of Rock-work, Corals, Stones, and many other Articles, in fine Prefervation.

LATE THE PROPERTY OF

*RICHARD MORRIS*, Efq;

Deceafed,

( Late of the T O W E R, )

Together with a Mahogany Neft of 45 Drawers And a fmall Cabinet.

Which will be Sold by Auction,

By SAMUEL BURTON,

On *Thurfday* the 6th of *April*, 1780,

( At No. 11. )

PRINCES STREET, LOTHBURY,

By Order of the EXECUTORS.

The Whole to be viewed on Wednefday and till the Sale which will begin at 11 o'Clock

Catalogues may be had at the Place of Sale, and of Samuel Burton, Sworn Broker and Upholder, Houndfditch.

*Wyneb-ddalen: 'A Catalogue Collection ... of Richard Lewis'.*

*'Just now am about filling up my brother Richard's cabinet which came here a few days ago… the cabinet is 3 feet by four feet and 18 inches deep… brother R has the least notion of any man living to make a collection of natural curiositys… and I am sorry that I forsee that this pretty collection that I have taken so much pains to sort in his cabinet will fall into the hands of a broker… and perhaps his family nothing the better for it…'*

Clywodd Thomas Pennant ei hunan am y cabinet a'i gynnwys ac ar 18 Mawrth galwai heibio i'w weld. Ond fe'i rhwystrwyd gan Lewis a oedd yn Llundain ar y pryd – a hyn am reswm digon da, fel yr eglurodd Lewis mewn llythyr at William:

*'Dyma'r Bennant gwedi galw ddoe gyda'r brother Rhisiart yn gwaeddi am gael gweld ei gabined, canys fe ddywedodd Gwilim [William Morris] fod yno un gwych, etc. Gorfod arno ynteu ei wadu, ai fod heb ei orphen, ag onide fe ladratasai'r Bennant y pethau goreu oddiyno pei gwelsai mai o'i ystor ef y cawsid hwy gan mwyaf… Felly ni cha'r Bennant mo'u gweled dros un flwyddyn etto, nes y ceffir ychwaneg o bethau, fel y caffo'r naill ymguddio ynghysgod y llall…'*

Pryd yn union – a sut – y llwyddwyd i ddwyn rhai o gywreinbethau Pennant a'u trosglwyddo i gasgliad Richard, ni wyddys, ond mae'r cyfan yn taflu goleuni dadlennol ar gyfrwystra Lewis yn ei ymwneud â Pennant.

Mae ym meddiant Adran Darnau Arian a Medalau yr Amgueddfa Brydeinig gopi o gatalog 'arwerthiant Richard Morris'. Mae'n cynnwys rhai miloedd o eitemau, y rhan fwyaf ohonynt yn *'shells, corals, fossils and other natural curiosities'* wedi eu dosbarthu rhwng rhyw ddeugain o flychau, droriau a chabinetau. Ar werth hefyd oedd rhyw dri chant o ddarnau arian a nifer ohonynt yn dyddio o'r cyfnod Eingl-Sacsonaidd.

Ond mae'n debyg mai yn yr adran *'Miscellaneous Articles'* y cafwyd yr eitemau mwyaf diddorol yn yr arwerthiant. Cynhwysai hon bethau megis ŵy estrys, bwa Sineaidd ynghyd â nifer o saethau, nifer o bistolau, esgid bren, cwmpawd Sineaidd a chwpan a fu ym meddiant Brenin Tobago. Cynhwysai hefyd ficrosgop a wnaethpwyd gan Lewis Morris yn 1757. Mae'r cyfan yn ddrych i wedd ddiddorol ar fywyd a gweithgareddau'r olaf o Forrisiaid Môn ac yn fesur o'i awydd i gydymffurfio â phatrymau confensiynol ei gyfnod.

*O.N. Rhaid diolch i Adran Darnau Arian a Medalau'r Amgueddfa Brydeinig, Llundain am gyflenwi copi o Gatalog 'Arwerthiant Richard Morris'.*

## S.M.S. y Ddynes Newydd

*(Parhad o dudalen 11)*

'Wnewch chi ddim gadael i mi fynd i wlad bell i ddysgu'r blacs, felly mi wna i hynny yma.'

Yn 1887 priododd Sara â'r Parch. John Maurice Saunders, mab Dr. David Saunders, Abertawe. Yn ôl y papurau lleol yr oedd dydd y briodas yn achlysur pwysig yn hanes y pentref, addurnwyd y tai â baneri a blodau a thaniwyd gynnau. Wedi'r rhialtwch ymadawodd y pâr priod ar y trên o orsaf Pontllanio, a chyn diwedd yr wythnos hwyliodd y ddau i'r Unol Daleithiau ar eu mis mêl.

Ni chredai John Saunders mewn aros yn yr un ofalaeth am fwy na saith mlynedd, felly bywyd pur symudol a gafodd Sara; buont yn ôl a blaen i'r Unol Daleithiau fwy nag unwaith a hefyd yn Seland Newydd.

Yn ystod y mordeithiau ysgrifennai Sara lythyrau meithion adre, ac at ei chyfeillion, yn disgrifio ei chyd-deithwyr. Dau gymeriad hollol wahanol i'w gilydd oedd John a Sara, ef yn encilgar a swil, hithau'n hoff o gymdeithasu ac ymddiddan. Ni ofnai siarad yn gyhoeddus ar lwyfannau, peth 'rhyfygus' yn yr oes honno. Nid oedd ei mam yn cymeradwyo'i gwaith yn ysgrifennu ac yn areithio; gwaith edau-a-nodwydd ac *embroidery* a ddylai fod yn mynd â bryd merched o'i safle hi. Cas bethau Sara oedd y rhain; darllen oedd ei hoffter, ac yr oedd ganddi ei barn ei hun ar bopeth.

Dyma gyfnod y *New Woman* yn Lloegr. Ymddangosodd ysgrif ar yr union bwnc hwn, *Y Ddynes Newydd* gan Ellen Hughes, Llanengan yn *Y Gymraes* yn 1896. Erbyn hynny yr oedd S.M.S., fel yr arwyddai ei henw, yn cyfrannu storïau ac erthyglau i *Young Wales* a'r cyfnodolion Cymraeg. Yn ei llyfr gwerthfawr *Pur fel y dur, y Gymraes yn llên menywod y bedwaredd ganrif ar bymtheg* (1998) mae Jane Aaron yn trafod cyfraniad S.M.S. i lenyddiaeth merched:

'Dengys poblogrwydd gwaith S.M.S. fod darllenwyr Cymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn barod i dderbyn portreadau o'u merched fel arwresau a oedd yn gryfach ac yn fwy moesol na'r Cymro, ac i bob pwrpas yn annibynnol arno.' (tud 200).


**Hanes Plwyf Llanegryn**
**A History of the Parish of Llanegryn**

**WILLIAM DAVIES**

**Cyhoeddwyd y gwreiddiol yn Gymraeg yn unig yn 1948**

**Cyhoeddir y gyfrol ddwyieithog (400tt.) gan Elusen Griffith Owen, Peniarth. Yr elw at Eglwys Plwyf Llanegryn**

**Pris £20 + £5 cludiant**

**Archeber gan Stella Edridge, Argoed, Llanegryn, Tywyn, Gwynedd LL36 9SG**